Thomas Jones, Dinbych, 1756–1820

Awdur, diwinydd a gweinidog (MC)

Mi wn fod fy Mhrynwr yn fyw,
a'm prynodd â thaliad mor ddrud;
fe saif ar y ddaear, gwir yw,
yn niwedd holl oesoedd y byd...

Thomas Jones

Fe gafodd Thomas Jones fagwraeth freintiedig gan fod ei dad yn berchennog eiddo a oedd yn ffynhonnell ariannol gyson. Ganed ef ym Mhenucha, Caerwys, sir Fflint, ym mis Chwefror 1756, yr hynaf o dri o blant Edward a Jane Jones. Bu farw ei fam pan oedd yn wyth oed. Cafodd fanteision addysgol rhagorol trwy fynychu ysgol Owen Thomas, Ysgol Ramadeg Caerwys a gedwid gan y Parch. J. Lloyd, ac ysgol yn Nhreffynnon. Eglwyswyr oedd ei rieni ac i'r eglwys sefydledig y dygid ef pan oedd yn blentyn. Ond yn y 1760au dechreuodd y Methodistiaid gynnal moddion yng Nghaerwys, a chan fod ei fam yn gogwyddo tuag atynt fe aeth yntau i'w cyfarfodydd yn ei sgil. Ymunodd ag eglwys fechan y Methodistiaid yng Nghaerwys ym 1772 ac ychydig wythnosau'n ddiweddarach aeth i wrando ar Daniel Rowland, Llangeitho, yn pregethu yn y Bont Uchel. Ceisiodd ei dad ei berswadio i fynd yn weinidog yn Eglwys Loegr ond gwrthododd oherwydd golygai gefnu ar Fethodistiaeth.

Daeth i brofiad o'r Iesu ond bu ei dröedigaeth ymhlith yr hiraf a'r mwyaf dirdynnol a gofnodwyd, fel y tystia yn ei hunangofiant. Yr oedd yn 24 oed yn dod trwy fwlch yr argyhoeddiad a dyna pryd y profodd dangnefedd yn ei galon. Aeth i oedfa yng Nghaerwys un nos Sul ym 1783 ond ni ddaeth y pregethwr, felly gofynnwyd iddo lenwi'r bwlch ac felly y gwnaeth, gan godi ei destun o Hebreaid 11, a dyna sut y dechreuodd bregethu. Bryd hynny dim ond ychydig o gynulleidfaoedd Methodistaidd oedd yn Ninbych a Fflint ac nid oedd ganddynt

unrhyw weinidogion ordeiniedig. Cyfarfu â Thomas Charles o'r Bala pan oedd ar daith bregethu ac fe ddaethant yn gyfeillion oes. Buont yn cydweithio â'r Cyfundeb Methodistaidd, Y Feibl Gymdeithas, Cymdeithas Genhadol Llundain a'r ysgolion rhad cylchynol. Ym 1795 symudodd i'r Wyddgrug i fyw gan briodi Elizabeth Jones. Yno cymerodd ofal eglwys y Methodistiaid a dechrau cyhoeddi'r *Trysorfa Ysprydol* (1799–1801) gyda Thomas Charles. Bu farw ei briod ym 1797 gan adael swm sylweddol o arian i'w gŵr.

Ym 1804 symudodd i Ruthun a phriodi ag Ann Maysmor ond bu hithau farw y flwyddyn ddilynol. Sefydlodd argraffwasg a daeth Thomas Gee, tad yr enwog Thomas Gee, Dinbych, i ofalu amdani. Priododd eto ym 1806, y tro hwn â Mary Lloyd o Lanrwst, a symudasant i Ddinbych i fyw. Ni chafodd blant. Yr oedd yn ddyn galluog ac yn arweinydd medrus mewn cyfnod allweddol yn hanes y Methodistiaid Calfinaidd yng Nghymru. Yr oedd yn un o'r rhai a luniodd *Rheolau a Dibenion y Cymdeithasau Neillduol* 1801 ac fe'i hordeiniwyd ym 1811 fel un o weinidogion cyntaf yr Hen Gorff. Cymerodd ran flaenllaw yn nadleuon diwinyddol ei gyfnod. Amddiffynnodd Galfiniaeth rhag yr ymosodiadau o du Arminiaeth, a phlediodd Galfiniaeth gymedrol pan oedd Uchel Galfiniaeth yn cyhoeddi mai iawn cyfyngedig oedd canlyniad gwaith yr Iesu ar y Groes.

Cyhoeddodd gruglwyth o waith, gan gynnwys *Y Cristion mewn Cyflawn Arfogaeth*, (1796–1819); *Geiriadur Saesoneg a Chymraeg* (1800); *Hanes y Merthyron* (1813); *Hunangofiant Thomas Jones* (1814) a *Cofiant Thomas Charles* (1816). Bu farw yn Ninbych ar 16 Mehefin 1820 a chladdwyd ei weddillion ym mynwent yr Eglwys Wen.